

# ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD CHWEFROR 2016



## Trawsgwlad Meirion- Dwyfor

Cynhaliwyd cystadlaethau trawsgwlad Meirion-Dwyfor yn Nolgellau yn ddiweddar. Llongyfarchiadau calonnog i'r canlynol sydd wedi sicrhau cyfle i gystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad Eryri :-

Anni Roberts	Bl.7	6ed
Iago Rhys	Bl.7	4ydd
Callum Jones	Bl.7	7fed
Lleucu Lane	Bl.9	1af
Cari Davies	Bl.10 ac 11	1af
Rhys Hughes	Bl.10 ac 11	2il
Math Roberts	Bl.10 ac 11	10fed

Llongyfarchiadau arbennig i Lleucu Lane ar ennill ei ras a llwyddo i dorri record y cwrs ar gyfer ei hoedran. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf. (Diolch i Nigel Hughes am y llun).



Yn dilyn eu llwyddiant yn rasmus trawsgwlad Eryri mae Cari Davies a Lleucu Lane wedi ennill cyfle i gystadlu yn y rownd derfynol yn Aberhonddu. Llongyfarchiadau fil i chi genod a phob dymuniad da yn Aberhonddu.

## Twrnament 5 bob ochr

Y diwrnod canlynol cynhaliwyd twrnament 5 bob ochr ar gyfer bechgyn a merched yng Nghanolfan Hamdden Bangor.

### Canlyniadau gemau'r merched

Eifionydd 2	Dyffryn Ogwen 0
Eifionydd 1	Berwyn 3
Eifionydd 1	Rhyl 1
Moelwyn 1	Eifionydd 1
Eifionydd 1	Botwnnog 1

### Gemau'r bechgyn

Bodedern 2	Eifionydd 0
Eifionydd 6	Dinas Bran 0
Eifionydd 3	Botwnnog 4

## Gemau pêl rwyd merched Eifionydd.

### Tim 1

Eifionydd 10

Moelwyn 2

### Tim 2

Eifionydd 9

Moelwyn 0

## Pêldroed

Brynhawn Iau Ionawr 27ain teithiodd bechgyn Ysgol Botwnnog i Ysgol Eifionydd ar gyfer gêm bêldroed i Bl.8. Llwyddodd bechgyn Eifionydd i ennill y gêm o 5 i 4. Sgoriwyd y goliau i Eifionydd gan Jac Humphreys (2), Iago Rhys (2) a Dion Pritchard. Da iawn chi hogia!

Curo o 5 gôl i 1 oedd hanes bechgyn Bl.7 wrth iddyn nhw wynebu Ysgol Glan y Môr, Pwllheli.

## Gala Nofio'r Urdd

Teithiodd pedwar o fechgyn heini Ysgol Eifionydd yr holl ffordd i Gaerdydd i gystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd. Perfformiodd Iago Rhys, Steffan Price-Machin, Callum Jones a Morgan Lukacs yn ardderchog gan ddod yn 5ed yn y ras gyfnewid 'Medley', gan wella o 5 eiliad ar eu hamser blaenorol. Daethant yn 6ed yn y ras gyfnewid dull rhydd, gan wella ar eu hamser blaenorol o 7 eiliad. Llwyddodd Morgan a Iago i ddod yn 6ed wrth nofio y dull cefn a broga. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch. Daliwch ati. (Diolch i Nigel Hughes am y llun).



## Stondin Gacennau

Fore Gwener, Ionawr 29ain bu rhai o nofwyr heini Ysgol Eifionydd yn gwerthu cacennau i staff a disgyblion yr ysgol yn ystod amser egwyl. Ymdrech gan Nofio Gwynedd i godi arian oedd hyn ac rydym fel ysgol bob amser yn falch o'u llwyddiant ac yn falch o'u cefnogi.



### Ymweliad Lori Ni

Unwaith eto eleni ymwelodd Lori Ni â'r ysgol. Cafodd disgyblion Bl.9 gyfle i ymweld â'r lori mewn grwpiau bychain. Mae Lori Ni yn cynnig gwybodaeth a chynghor i bobl ifanc am ystod eang o bynciau pwysig a pherthnasol.

## Ymweliadau ag ysgolion cynradd

Mae Mrs. Lyn Parry Hughes, sydd â chyfrifoldeb pontio cynradd-uwchradd yn parhau â'i hymweliadau ag ysgolion cynradd y dalgylch. Ddydd Gwener, Ionawr 28ain tro Ysgol Y Gorlan, Tremadog oedd hi. Ymunodd wyth o ddisgyblion Bl.7 sy'n gyn-ddisgyblion o Ysgol Y Gorlan â hi ar yr ymweliad sef Madi, Lois, Steffan, Iago, Keira, Chris, Meical a Morgan ynghyd â Lowri ac Ifan o Flwyddyn 10. Dyma gyfle gwych i'r disgyblion sôn am eu profiadau yn Ysgol Eifionydd ers mis Medi ac yn gyfle euriad i'r disgyblion gael atebion i unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am fywyd yn yr ysgol uwchradd. Gobeithio fod y disgyblion wedi cael budd o'r ymweliad.

## Penodi Pennaeth

Daeth newyddion da i law wrth i Mr. Gwilym Jones, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Eifionydd gyhoeddi "Pleser yw cadarnhau fod Mr. Dewi Bowen wedi ei apwyntio yn brifathro newydd Ysgol Eifionydd. Yn ystod y misoedd diwethaf mae wedi profi ei fod yn arweinydd abl a does dim amheuaeth y bydd yn parhau i arwain Ysgol Eifionydd i ragor o lwyddiant".

Dyma oedd gan Mr. Dewi Bowen i ddweud: " 'Ymlaen' yw arwyddair yr ysgol ac fel Pennaeth Ysgol Eifionydd rwy'n edrych ymlaen i barhau i gydweithio yn agos gyda'r athrawon, staff cefnogol, rhieni a'r disgyblion. Mae'r ysgol eisoes yn un lwyddiannus, ond credaf gyda'n gilydd y gallwn ei datblygu ymhellach fel ysgol greadigol sy'n paratoi ein disgyblion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r Gymraeg yn agos at fy nghalon ac yn fy marn i mae ethos dwyieithog yr ysgol wedi arwain at ddatblygiad llawn o ddeallusrwydd ein plant yn ogystal â chefnogi diwylliant a thraddodiadau ein bro. Y nod fydd cynorthwyo ein disgyblion i gyrraedd y safonau uchaf posib mewn ysgol hapus, gynhwysol a gwaraidd. Hoffwn ddiolch i'r Llywodraethwyr am y fraint o gael parhau i arwain yr ysgol."

Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da i Mr. Bowen yn y swydd allweddol hon. (Diolch i Nigel Hughes am y llun).

